CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ●Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**
**01766 832 398 clerc @cyngortrefffestiniog.cymru**

# COFNODION CYFARFOD ARFEROL

# 13eg MEHEFIN 2022

**COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG**
**A GYNHALIWYD NOS LUN 13eg o FEHEFIN 2022**
**AR LEIN AM 7.00 Y.H.**

CADEIRYDD: Cynghorydd: Rory Francis

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Alun Jones, Dafydd Dafis, Glyn Daniels, Mark Thomas.

**11373/06/22** **1. YMDDIHEURIADAU**
DIM.

**11374/06/22** **2. DATGAN DIDDORDEB**
**Eitem 7 – Cofnodion Anarferol 06.06.22 – Cynghorydd Dafydd Dafis yn datgan buddiant rhagfarnllyd.**

**Eitem 11 – Cais Ariannol Y Dref Werdd – Cynghorydd Rory Francis yn datgan buddiant rhagfarnllyd.**

**Eitem 15b – Cais Cynllunio Y Dref Werdd – Cynghorydd Rory Francis yn datgan buddiant rhagfarnllyd.**

**11375/06/22** **3. MATERION BRYS**
*Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.*
***Dalier Sylw** trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.*

Dim.

**11376/06/22** **4. Diweddariad gan yr Heddlu.**

Croesawyd SCCH Delyth Edwards i'r cyfarfod.

Heddlu wedi treulio amser yn siarad gydag unigolion mewn achos hawlio tir tu allan i Manod.
Soniwyd am cyn bwerau oedd gan yr SCCH o ran cerbygdau heb dreth arnynt, ac mi fydd SCCH Delyth Evans yn ail-gysylltu gyda Rheolwr Adfer Cerbydau Heddlu Gogledd Cymru i weld os oes modd ail-ddirprwyo'r pwerau hynny i'r SCCH.

Trafodwyd achosion o gerbydau wedi eu parcio mewn mannau rhwystrol.
Cadarnhawyd os oedd cerbyn wedi parcio ac yn creu rhwystr, ac mae hawl tramwy yn bodoli, yna mae modd ffonio 101 i adrodd y mater.
Diolchwyd i'r SCCH Delyth Evans am ei amser, a gadawodd y cyfarfod.

**11377/06/22** 5. **Derbyn a chadarnhau Cofnodion Cyfarfod Arferol 9fed o Fai, 2022.**

PENDERFYNIAD: Y Cyngor yn derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Glyn Daniels yn cynnig a'r Cynghorydd Dafydd Dafis yn eilio.

**11378/06/22** 6. **Derbyn a chadarnhau Cofnodion Blynyddol 9fed o Fai, 2022.**

PENDERFYNIAD: Y Cyngor yn derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Alun Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Glyn Daniels yn eilio.

**11379/06/22** 7. **Derbyn a chadarnhau Cofnodion Cyfarfod Anarferol 6ed o Fehefin, 2022.**

PENDERFYNIAD: Y Cyngor yn derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Glyn Daniels yn cynnig a'r Cynghorydd Alun Jones yn eilio.

**11380/06/22** 8. **CYFRIFON I'W TALU**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Taliadau I'w talu / Payments Due | | 10.05.22-09.06.22 | | | |
| Cyfarfod Arferol / Ordinary Meeting 13.06.2022 | | | | | |
| **Cyfrifon 2022-23 (I'w dalu/ To pay)** | | | | | |
| **Dyddiad/Date** | **Cyflenwr / Supplier** | **Disgrifiad / Description** | **Cost** | **Dull talu / payment method** | |
| | Canolfan Gymdeithasol | Rhent Ebr / Apr Rent 2022 Inv | £ 430.00 | Ar-lein | 1 |
| 31/05/2022 | Cricieth Cleaning | Glanhau Chwef/ cleaning for Mar Inv3129 | £ 1,203.53 | Ar-lein | 2 |
| 05/06/2022 | Zoe Pritchard (Clerc) | Taliad Zoom misol / monthly Zoom fee INVINV151472190 | £52.79 | Ar-lein | 3 |
| 11/06/2022 | Zoe Pritchard (Clerc) | Ad-daliad am ffi misol MS Office monthly fee repayment | £9.12 | Ar-lein | 4 |
| 06/06/2022 | British Gas | Trydan Pafiliwn/ Pavillion electric 03/05/22-01/06/22 | £15.41 | DD | 5 |
| 01/06/2022 | BT | Anfoneb misol ffon / Y we | £66.49 | DD | 6 |
| 09/06/2022 | Natwest | Ffi bancio arlein / online banking fee | £25.85 | DD | 7 |
| 09/06/2022 | Zoe Pritchard (Clerc) | Ad-daliad costau postio / Postage reimbursement | £10.25 | Ar-lein | 8 |
| 09/06/2022 | Llafar Bro | Noddi rhifyn Mehefin / June Sponsorship | £500.00 | Ar-lein | 9 |
| 05/06/2022 | P.H.Jones | Gwaith garddio / Gardeing | £193.75 | Ar-lein | 10 |
| 13/05/2022 | Huws Gray | Gosod fainc Encil / Bench fixings | £80.04 | Ar-lein | 11 |
| 30/05/2022 | Owain Aeron | Torri gwair mis Mai | £945.00 | Ar-lein | 12 |
| 30/05/2022 | Gwyn Thomas | Gwaith Cynnal a Chadw Mai 22 | £560.00 | Ar-lein | 13 |
| 31/05/2022 | Eirian Barkess (Clerc) | Ad-daliad costau postio / Postage reimbursement | £4.30 | Ar-lein | 14 |
| | | **Cyfanswm / Total** | **£ 4,096.53** | | |
| ARIAN I MEWN / INCOME | | | | | |
| 29/04/2022 | Cyngor Gwynedd | Taliad 1 o 2 o praeset 22/23 1st part payment precept | £115,000.00 | | |
| 18/05/2022 | HMRC | Ad-daliad TAW / VAT repayment | £10,454.55 | | |
| | | **Cyfanswm / Total** | **£125,454.55** | | |

PENDERFYNIAD:
Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod.

**11381/06/22 9. CYFRIFON MISOL Y CYNGOR**

10 June 2022 (2022-2023)

## Cyngor Tref Ffestiniog

Prepared by: ______________________________ Date: ____________

*Name and Role (Clerk/RFO etc)*

Approved by: ______________________________ Date: ____________

*Name and Role (RFO/Chair of Finance etc)*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Bank Reconciliation at 10/06/2022** | | | |
| | Cash in Hand 01/04/2022 | | | 194,977.01 |
| | **ADD**<br>Receipts 01/04/2022 - 10/06/2022 | | | 136,229.31 |
| | | | | 331,206.32 |
| | **SUBTRACT**<br>Payments 01/04/2022 - 10/06/2022 | | | 31,659.93 |
| **A** | **Cash in Hand 10/06/2022**<br>(per Cash Book) | | | **299,546.39** |
| | Cash in hand per Bank Statements | | | |
| | Petty Cash | 04/05/2022 | 0.00 | |
| | Cash | 04/05/2022 | 0.00 | |
| | 3 NatWest Capital Reserve 123423 | 10/06/2022 | 69,510.38 | |
| | 2 NatWest Reserve 12339792 | 10/06/2022 | 0.15 | |
| | 1 NatWest Cyfredol/Current 12339 | 23/05/2022 | 230,843.98 | |
| | | | | **300,354.51** |
| | Less unpresented payments | | | 809.12 |
| | | | | 299,545.39 |
| | Plus unpresented receipts | | | 1.00 |
| **B** | **Adjusted Bank Balance** | | | **299,546.39** |
| | **A = B Checks out OK** | | | |

10 June 2022 (2022-2023)

## Cyngor Tref Ffestiniog
### Summary of Receipts and Payments
#### Summary - Cost Centres Only

| Cost Centre | Receipts | | | Payments | | | Net Position |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Budgeted | Actual | Variance | Budgeted | Actual | Variance | +/- Under/over spend |
| 01 Cyflogau / Salaries | | | 0.00 (N/A) | 74,358.00 | 13,256.80 | 61,101.20 (82%) | 61,101.20 |
| 02 Cyffredin / General | | | 0.00 (N/A) | 19,646.00 | 2,660.65 | 16,985.35 (86%) | 16,985.35 |
| 03 Adran 137 Section | | | 0.00 (N/A) | 2,000.00 | | 2,000.00 (100%) | 2,000.00 |
| 03a Cyfraniadau / Donations | | | 0.00 (N/A) | 8,650.00 | 1,750.00 | 6,900.00 (79%) | 6,900.00 |
| 04 Llwybrau / Footpaths | | | 0.00 (N/A) | 6,900.00 | | 6,900.00 (100%) | 6,900.00 |
| 05 Nadolig / Christmas | | | 0.00 (N/A) | 15,850.00 | | 15,850.00 (100%) | 15,850.00 |
| 06 Mwynderau/Amenities | | | 0.00 (N/A) | 45,250.00 | 10,253.75 | 34,996.25 (77%) | 34,996.25 |
| 07 Caeau Chwarae / Playing Fields | 200.00 | | -200.00 (-100%) | 50,201.00 | 2,057.07 | 48,143.93 (95%) | 47,943.93 |
| 08 Incwm / Income | | 10.93 | 10.93 (1093% | | | 0.00 (N/A) | 10.93 |
| 09 Aelodau / Members | | | 0.00 (N/A) | 10,350.00 | | 10,350.00 (100%) | 10,350.00 |
| 10 Yswiriant, Archwilio, Hybu / Insu | | | 0.00 (N/A) | 7,350.00 | | 7,350.00 (100%) | 7,350.00 |
| 11 Llochesi Bws / Bus Shelters | | 8,666.00 | 8,666.00 (86660C | 6,400.00 | 898.48 | 5,501.52 (85%) | 14,167.52 |
| 12 Praesept / Precept | 230,000.00 | 115,000.00 | -115,000.00 (-50%) | | | 0.00 (N/A) | -115,000.00 |
| **NET TOTAL** | **230,200.00** | **123,676.93** | **-106,523.07 (-46%)** | **246,955.00** | **30,876.75** | **216,078.25 (87%)** | **109,555.18** |

| | Receipts | Payments |
|---|---|---|
| **Total for ALL Cost Centres** | 123,676.93 | 30,876.75 |
| **V.A.T.** | 12,552.38 | 783.18 |
| **GROSS TOTAL** | **136,229.31** | **31,659.93** |

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cyfrifon.

## CEISIADAU ARIANNOL

11382/06/22 10. Grwp "Busnes Blaenau Business" – Derbyn adborth o'r cyfarfod gan y Cynghorydd Glyn Daniels ac ail-ystyried.

**PENDERFYNIAD: I'r Clerc wirio swm rhodd ariannol o Blaenau Ymlaen. Os yw'r swm yn £1,500 neu uwch, cytuniwyd i gyfrannu £1,500 i'r grwp Busnes. Os yw'r swm yn llai na £1,500, defnyddio cyllid cyfraniadau i gyrraedd y swm o £1,500.00. Cytuniwyd i yrru awgrym i'r grwp o leihau'r nifer i'w brintio er mwyn iddynt fedru symud ymlaen yn sydyn.**

11383/06/22 11. Y Dref Werdd – Cynllun talebion – adolygu'r ymateb ac ail-ystyried.

**Mi adawodd y Cadeirydd Rory Francis yr cyfarfod i drafod yr eitem, gyda'r Dirprwy Gadeirydd Alun Jones yn cymeryd drosodd fel Cadeirydd ar gyfer yr eitem hwn.**

Croesawyd Meilyr Thomas o'r Dref Werdd i'r cyfarfod i rhoi cyflwyniad byr am yr cynllun ac ateb cwestiynau'r Cynghorwyr.

**PENDERFYNIAD: Cytuniwyd i gyfrannu £2,000 at y cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol presennol sef 2022/23.**

**Diolchwyd i Meilyr Thomas am ei bresenoldeb a'i waith yn y fro dros y blynyddoedd ddiwethaf, a gadawodd y cyfarfod.**

**11384/06/22** **12. <u>Derbyn a chadarnhau Argymhellion Pwyllgor Staffio ar yr 28ain o Ebrill, 2022.</u>**

**PENDERFYNIAD: Gohirio'r penderfyniad nes y cyfarfod arferol nesaf.**

**11385/06/22** **13. <u>Derbyn a chadarnhau Argymhellion Pwyllgor Mwynderau ar yr 16eg o Fai, 2022.</u>**

Nodwyd nad oedd y penderfyniad o symud ffens o'r Parc i gae Tan y Manod wedi ei gofnodi yn y cofnodion.

**PENDERFYNIAD**: Derbyn a Chadarnhau'r Argymhellion ar sail fod yr cywiriad uchod yn cael ei gynnwys ynddynt, gyda'r Cynghorydd Mark Thomas yn cynnig a'r Cynghorydd Dafydd Dafis yn eilio.

**11386/06/22** **14. <u>Derbyn a chadarnhau Argymhellion Pwyllgor Rheoleiddio ar yr 1af o Fehefin, 2022.</u>**

**PENDERFYNIAD: Derbyn a chadarnhau'r Argymhellion gyda'r Cynghorydd Alun Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Dafydd Dafis yn eilio.**

**11387/06/22** **15. <u>CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio.

a) Rhif Cais / Application No.: C22/0317/03/DT
Lleoliad / Location: **1 Bron Ddwyryd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3EN**
Bwriad / Proposal: Estyniad deulawr ochr a chefn ac estyniad unllawr ochr
**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad gyda'r Cynghorydd Alun Jones yn cynnig, a'r Cynghorydd Dafydd Dafis yn eilio.

b) Rhif Cais / Application No.: C22/0516/03/LL
Lleoliad / Location: **Field To The North Of Tabernacl Terrace, Blaenau Ffestiniog, LL41 3BJ**
Bwriad / Proposal: Codi twnel poli ar gyfer garddwriaeth i'w ddefnyddio gan y gymuned
**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad gyda'r Cynghorydd Dafydd Dafis yn cynnig a'r Cynghorydd Glyn Daniels yn eilio.

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD FESUL AWDURDOD CYNLLUNIO

**CYNGOR GWYNEDD:**

| Rhif Cais / Application No | Lleoliad / Location | Disgrifiad / Description | Ward | Penderfyniad / Decision |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| C21/1114/03/LL | Y Maes The Square, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3UN | Newid defnydd o siop i fusnes trin cwn Change of use from shop to dog grooming business | Bowydd a rhiw | Caniatawyd gydag amodau. Permitted with conditions. |
| C22/0344/03/DT | 9 Dolgarregddu, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3BP | Estyniad deulawr blaen Two storey front extension | Bowydd a Rhiw | Caniatawyd gydag amodau. Permitted with conditions. |

**PARC CENEDLAETHOL ERYRI:**

| Rhif Cais / Application No | Lleoliad / Location | Disgrifiad / Description | Ward | Penderfyniad / Decision |
|---|---|---|---|---|
| NP5/59/511J | Land to rear of Penrhiw, Llan Ffestiniog. LL41 4PN | Manylion draenio er mwyn cysylltu i'r prif carthffos presennol yn lle i'r uned trîn carthion a ganiatawyd o dan cais cynllunio NP5/59/511A | Cynfal a Teigl. | Gwrthodwyd. Refused. |

**PENDERFYNIAD: I dderbyn yr wybodaeth**

**DATBLYGIADAU YN YR ARDAL**

**IECHYD**

**11388/06/22** **16. Iechyd**

Gofynnwyd am ddiweddariad ar drefnu'r ail gyfarfod iechyd meddwl bobl ifanc i'r ardal.

**PENDERFYNIAD**: I'r Clerc rhoi'r trefniadau hyn mewn lle fel mater brys.

**11389/06/22** **17. Rhoi sylwadau ar cyfyngiadau Parcio Arfaethedig ym Mlaenau Ffestiniog.**

Trafodwyd bwriad Cyngor Gwynedd o ail-beintio'r bae parcio anabl, a pheintio llinellau melyn dwbl arfaethedig yn Bryn yr Haf / Summer Hill, Blaenau Ffestiniog LL41 3EQ.

**PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad.**

**Y CYNGOR TREF**

**11390/06/22 18. <u>ADRODDIAD STAFF Y CYNGOR TREF.</u>**

- Y Clerc wedi cyflwyno dogfen 'Tabl tasgau staff' i'r Cynghorwyr o flaen llaw, ac yn bwriadu parhau gyda'r drefn hyn wrth symud ymlaen.
- Holwyd os oedd y Clerc wedi cael amser i gyflwyno cais grant Lleoedd Natur ar gyfer perllan cymunedol Pant yr Ynn eto. Cadarnhaodd y Clerc mai'r dyddiad agor oedd y 9fed o Fehefin, felly fydd hwnnw yn cael ei gyflwyno yr wythnos hon.

**PENDERFYNIAD**: I dderbyn yr wybodaeth.

**11391/06/22 19. <u>Llythyr ymateb Breedons yn sgil materion i drigolion Rhesdai'r Oakeley.</u>**

Codwyd nad oedd yr ymateb yn ateb cwestiwn o ran beth yw'r mwg ac os yw'n niweidiol i drigolion lleol. Cynghorydd Dafydd Dafis yn bwriadu ymchwilio ymhellach er mwyn gallu ymateb yn fwy fanwl o ran llwch wedi'i wasgaru ar domeni.

**PENDERFYNIAD**: Gyrru'r ymateb ymlaen at y trigolion lleol wnaeth gysylltu gyda'r Cyngor Tref yn wreiddiol. Aros i dderbyn rhagor o fanylion gan y Cynghorydd Dafydd Dafis am leoliadau posib o'r llwch yn treiddio cyn ymateb nol i Breedons.

**11392/06/22 20. <u>Cytuno ar gynrychiolwyr Cyngor Tref Ffestiniog mewn cyfarfod i drafod prosiectau cydweithio ym Mlaenau Ffestiniog – Dydd Llun Mehefin 20 am 9yb.</u>**

**PENDERFYNIAD**: Cytuno y bydd y Cynghorydd Glyn Daniels a'r Cynghorydd Dafydd Dafis yn mynychu'r cyfarfod, yn ogystal â'r Clerc

**11393/06/22 21. <u>Cytuno ar drefniant i gasglu preniau rheilffordd o Boston Lodge, Minffordd i Gae Tan y Manod</u>**

**PENDERFYNIAD:** Cytuniwyd y byddai'r Cynghorwyr Rory Francis, Dafydd Dafis a Mark Thomas yn casglu'r preniau Dydd Gwener yr 17eg o Fehefin, 2022.

**11394/06/22 22. <u>Trafod ymateb, os o gwbl i lythyr Penodiad Aelod Cymunedol i'r Pwyllgor Safonau, Cyngor Gwynedd.</u>**

**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad i'r penodiad.

**11395/06/22 23. <u>Cytuno ar ddull ymateb i arolwg cydnerthedd cymunedol gan Archwilio Cymru.</u>**

**PENDERFYNIAD**: I beidio ag ymateb i'r arolwg.

**11396/06/22 24. <u>Cytuno ar ddull ymateb i arolwg Ymgynghoriad Teithio Llesol, Cyngor Gwynedd.</u>**

**PENDERFYNIAD**: Cytuniwyd y byddai'r Cadeirydd Rory Francis yn ymateb i'r arolwg ar ran Cyngor Tref Ffestiniog, gyda'r Cynghorydd Glyn Daniels yn cynnig a'r Cynghorydd Alun Jones yn eilio, gyda'r Cyngor i gyd yn gytûn.

**11397/06/22 25. Adolygu Polisi Salwch Cyngor Tref Ffestiniog.**

**Awgrymwyd y byddai'n synhwyrol cael cynllun bras mewn lle petai staff Cyngor Tref Ffestiniog yn sal am gyfnod hir. Y Clerc i ddrafftio cynllun bras a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Staffio nesaf.**

**PENDERFYNIAD**: I dderbyn y Polisi Salwch, a'i adolygu yn y Cyfarfod Blynyddol Mai 2023.

**MATERION YN CODI**

**11398/06/22 26. Caeau Chwarae**

Man bwyntiau wedi eu codi gan gynnwys cloeau peintiwr y parc wedi eu torri, clo giat ochr Y Parc angen ei hail-agor, a bwrdd picnic Cae Tanygrisiau wedi pydru. PENDERFYNIAD: Y staff i weithredu ar faterion brys, a thrafod y gweddill yn y Pwyllgor Mwynderau nesaf.

**MATERION ER GWYBODAETH**

**11399/06/22 27 Cyfle i Gynghorwyr adrodd yn ôl i'r Cyngor yn dilyn eu presenoldeb mewn pwyllgorau allanol.**

Rhoddodd y Cadeirydd a'r Clerc ddiweddariad i'r Cynghorwyr am gyfarfod a chafwyd gyda Ceri Cunnington a Calvin Evans o Gwmni Bro, lle derbynwyd ddiweddariad gan Gwmni Bro am pryniant adeiladau ar y stryd fawr yn ddiweddar. Y Clerc i rannu adroddiad ysgrifenedig a dderbynwyd i'r Cyngor gyfan.

**11400/06/22 28. NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD**

Dim i'w drafod.

**11401/06/22 29. NEWYDDION ARALL**

Dim i'w drafod

**11402/06/22 30. GOHEBIAETH**

a) Llythyr cynyddiad rhent gan Bwyllgor Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr wybodaeth a chytuno i'r cynyddiad rhent. Symud y cynnig o gynrychiolydd y Cyngor Tref i'r pwyllgor nes y bydd rhagor o Gynghorwyr wedi eu cyfethol.

b) E-bost gan Cybi Williams, GALWAD, Casgliad Cymru.
PENDERFYNIAD: I dderbyn yr wybodaeth.

c) E-bost gan Llyr ap Dafydd Jones, Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru.
PENDERFYNIAD: I dderbyn yr wybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00yh

CADEIRYDD

**CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF**
**NOS LUN 11eg o ORFFENNAF 2022**
**AR LEIN am 7.00 y.h.**

**CEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 11eg o ORFFENNAF 2022**
**AR YR 4ydd o ORFFENNAF 2022**